

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 15 o Fai 2018

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)  
Cyng. Gwilym O. Jones  
Cyng. Gordon Owen  
Cyng. William Victor Owen  
Cyng. Sharon Wyn Parry  
Cyng. Einir Thomas

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Beryl Salisbury

2. **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol - 16eg o Fai 2017** - derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir.

3. **Ethol Swyddogion 2018 – 2019**

**Cadeirydd** - Gyda Cyng. Gwilym O. Jones yn cynnig a Cyng. William Victor Owen yn eilio fe etholwyd Cyng. Beryl Salisbury yn Gadeirydd.

**Is-gadeirydd** - Gyda Cyng. William Victor Owen yn cynnig a Cyng. Einir Thomas yn eilio fe etholwyd Cyng. Sharon Wyn Parry yn Is-gadeirydd.

---

**Fe arosodd Cyng. Dyfed Williams yn y gadair yn absenoldeb Cyng Salisbury.**

4. **Datganiad o ddiddordeb: - dim.**

5. **Cofnodion cyfarfod 17 Ebrill 2018:**

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. William Victor Owen, eilio Cyng. Gordon Owen.)

6. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Cae Chwarae - Nodwyd bod McVenture Playgrounds Ltd. ar fin cychwyn gwaith ar yr arwynebau yn y cae chwarae. Dywedwyd hefyd bod y sedd ar y swing wedi torri.

2. Llochesi Bws - Roedd Cyng. William Victor Owen wedi prynu set o folltau ac wedi trin y lloches bws gyferbyn â'r eglwys ar Ffordd Minffordd. Roedd hefyd wedi rhoi lladdwr chwyn o gwmpas y lloches bws wrth Cefn Llesg.

Llofnod.....Cadeirydd.....

3. Gwaith Cynnal Tre Ifan – byddai'r clerc yn ceisio cael **dyddiad** ar gyfer gwneud y gwaith ar y waliau cerrig.
4. Gwaith Cynnal Priffyrdd - Roedd y gwaith wedi cychwyn ar Lon Cymyran, ond bydd angen i'w fonitro i sicrhau bod gwyneb ar y ffordd gyfan yn cael sylw nawr fod y prif waith a wnaed ar y rhedfa wedi ei gwblhau.
5. Gwarchod Data (GDPR) Ffioedd Gwarchod Data - Cadarnhawyd nad oedd yn ofynnol i'r Cyngorau Cymuned benodi Swyddog Diogelu Data ond cytunodd y Cyng. Sharon Parry i gefnogi'r clerc gydag unrhyw gamau gofynnol. Nodwy hefyd bod angen a cofrestru gyda'r ICO a bod ffi o £35 i'w dalu am wneud hyn.
6. Llwybrau Cyhoeddus - roedd y Cyng Dyfed Williams wedi arolygu'r llwybrau troed, penderfynnwyd bod angen rhoi sylw i'r canlynol cyn gynted ag y bo modd: Rhif. 1, 2, 4, 5, 8, 14, 15, 16, 27 a 28. Byddai'r clerc yn hysbysu GMS Garden Services.

**7. Cytundebau a Thelerau:**

- a) Cynnal a chadw - cytunwyd i barhau i dalu £ 180 ddwywaith y flwyddyn i oruchwylio'r ardal chwarae ac ati.
- b) Y Clerc - roedd cyflog y clerc yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r graddfeydd tâl Awdurdod Lleol y cytunwyd arnynt yn Genedlaethol a oedd wedi cadarnhau cynnydd o 2% o fis Ebrill 2018.

**8. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

Penderfyniadau cynllunio - dim

Ceisiadau Cynllunio

Lon Minffordd, Llanfihangel yn Nhowyn - Cais llawn i osod offer chwarae – dim gwrthwynebiad.

**9. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - cyflwynwyd a nodwyd
2. Gweithdy Cynllunio Lle – cyfarfod cyntaf 22.5.2018 - cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Llanfaelog a Chyngor Cymuned Y Fali -

Llofnod.....Cadeirydd.....

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

Cyng. Dyfed Williams a Einir Thomas i fynychu.

3. Enwi Strydoedd - Cyflwynwyd llythyr gan IOACC yn gofyn am sylwadau ar yr enw stryd a awgrymwyd gan y datblygwr ar gyfer y datblygiad newydd ger Tre Ifan – Cynnigwyd "Rhos Ifan". Nodwyd - dim gwrthwynebiad.
4. Cynghorau Tref a Chymuned - Protocol Datrysiad Lleol - Cyflwynwyd: llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn gofyn a oedd y protocol a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru wedi'i fabwysiadu. Cytunwyd i dderbyn y Protocol gyda mân ddiwygiadau. Byddai'r clerch yn hysbysu IOACC yn unol â hynny.
5. Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2018-19 - cytunwyd i dderbyn hwn.
6. Ymgynghoriad ar ddrafft o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - nodwyd

### 10. Materion Ariannol

**Yn y banc ar 15.5.2018 Cyfrif Cyfredol £13,405.02, Cyfrif Cadw £3,923.35**

### 11. Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clerch (Ebrill)	£183.80	HMRC	£45.90
GMS INV3464	£45.60	Yswiriant	£1,567.18

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

### 12. Cyfrifon Terfynnol - roedd rhain i'w hanfon at yr Archwilydd Mewnol

Roedd y Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol angen eu cyfieithu ac yn dilyn hynny byddai'r clerch yn edrych ar yr Aseidiadau Risg a chreu protocol i ddelio â chwynion a Polisi Cyfryngau Cymdeithasol.

### 13 Dogfennau Statudol

Cytunwyd nad oedd angen unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau Ariannol na'r Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd. Diweddarwyd yr asesiad Risg i adlewyrchu'r gofynion o dan GDPR.

### 14. Gohebiaeth Eraill: cyflwynwyd a nodwyd y canlynol

Llofnod.....Cadeirydd.....

1. Un Llais Cymru - Hyfforddiant .
2. Ymgynghoriad - Newidiadau i ganiatáu Seilwaith
3. Neges Ar Ran Panel Yr Adolygiad Annibynnol

**15. Unrhyw fater arall:**

Nodwyd, yn dilyn cyfarfod o'r Prifathrawon, Llywodraethwyr a'r Panel Addysg y byddai mwy o bwyslais yn cael ei roi ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r cwricwlwm ysgol gynradd. Roedd hyn yn creu pryderon i Ysgol y Tywyn oherwydd nifer y plant RAF sy'n mynychu'r ysgol.

**16. Cyfarfod Nesaf – 19 o Fehefin 2018**

Llofnod.....Cadeirydd.....